# Adroddiad Arholwyr TAG

Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant
TAG
Haf 2026

© WJEC CBAC Ltd.2026



## Cyflwyniad

Mae adroddiad yr Uwch Arholwyr yn rhoi adborth gwerthfawr ar y gyfres asesu ddiweddar. Yr Uwch Arholwyr a'r Uwch Gymedrolwyr sy'n ysgrifennu'r ddogfen hon ar ôl cwblhau'r marcio a'r cymedroli, ac mae'n cynnwys manylion ynghylch perfformiad ymgeiswyr ym mhob uned.

Mae'r adroddiad hwn yn dechrau â chrynodeb o berfformiad ymgeiswyr, gan gynnwys yr amcanion asesu/sgiliau/testunau/themâu sy'n cael eu profi, ac yn tynnu sylw at nodweddion perfformiad llwyddiannus a lle gellid gwella perfformiad. Yna mae'n edrych ar bob uned yn fanwl, gan nodi agweddau oedd yn heriol i rai ymgeiswyr ac awgrymu rhesymau posibl dros hynny.[1]

Mae'r wybodaeth sydd i'w chael yn yr adroddiad hwn yn helpu ymarferwyr i feithrin dealltwriaeth werthfawr i gefnogi eu gweithgaredd addysgu a dysgu. Byddem hefyd yn annog ymarferwyr i rannu'r ddogfen hon – yn ei chyfanrwydd neu rannau ohoni – â'u dysgwyr i'w helpu i baratoi ar gyfer yr arholiadau, i ddeall sut i osgoi diffygion annisgwyl ac i ychwanegu at eu pecyn cymorth adolygu.

### Cefnogaeth bellach

| Mapio | Disgrifiad | Cyswllt |
|---|---|---|
| Dysgu Proffesiynol / DPP | Mae CBAC yn cynnig rhaglen eang o ddigwyddiadau Dysgu Proffesiynol wyneb yn wyneb ac ar-lein. Cofrestrwch ar gyfer un o'n digwyddiadau yma i weld adborth rhyngweithiol, adolygu ymatebion enghreifftiol gan ymgeiswyr, cael syniadau ymarferol ar gyfer yr ystafell ddosbarth a gofyn cwestiynau i'n tîm ymroddedig. | https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/ |
| Cyn-bapurau | Manteisiwch ar y banc o gyn-bapurau ar gyfer y cymhwyster hwn, gan gynnwys yr asesiadau mwyaf diweddar. Noder na fydd y cyn-bapurau ar gael ar y wefan gyhoeddus hyd nes 12 mis ar ôl yr arholiad. | Porth CBAC neu ar dudalen pwnc CBAC |
| Gwybodaeth am ffiniau graddau | Ffiniau graddau yw'r nifer isaf o farciau y mae eu hangen i ennill pob gradd. Ar gyfer manylebau unedol, mynegir ffiniau graddau ar Raddfa Marciau Unffurf (GMU). Mae ffiniau graddau GMU yn aros yr un fath bob blwyddyn gan nad yw amrediad y canrannau marciau GMU a ddyrennir i radd benodol yn newid. Mae ffiniau graddau GMU yn cael eu cyhoeddi ar lefel gyffredinol y pwnc a'r uned.<br><br>Gyda manylebau llinol, dyfernir un radd am y pwnc, yn hytrach nag ar gyfer pob uned sy'n cyfrannu tuag at y radd gyffredinol. Cyhoeddir ffiniau graddau ar ddiwrnod y canlyniadau. | Ar gyfer manylebau unedol, cliciwch yma: Canlyniadau, Ffiniau Graddau a Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau (cbac.co.uk) |

[1] ***Noder: lle ystyriwyd bod perfformiad cyffredinol mewn cwestiwn/rhan o gwestiwn yn dda, heb unrhyw feysydd penodol i dynnu sylw atynt, nid yw'r cwestiynau hyn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.***

© WJEC CBAC Ltd.2026

| | | |
|---|---|---|
| Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau | Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar Borth CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon. | Porth CBAC |
| Adnoddau Ystafell Ddosbarth | Manteisiwch ar ein hamrywiaeth eang o adnoddau ystafell ddosbarth RHAD AC AM DDIM, gan gynnwys deunyddiau dysgu cyfunol, adnoddau arweiniad i'r arholiad a threfnwyr gwybodaeth i gefnogi addysgu a dysgu. | https://adnoddau.cbac.co.uk/ |
| Banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol | Manteisiwch ar ein banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol o ddigwyddiadau blaenorol ar ein gwefan ddiogel a deunyddiau wedi'u recordio ymlaen llaw ychwanegol ar y wefan gyhoeddus. | Porth CBAC neu ar dudalen pwnc CBAC. |
| Arholi gyda CBAC. | Rydym bob amser yn chwilio am arholwyr neu gymedrolwyr newydd i'w recriwtio. Gall y cyfleoedd hyn eich helpu i feithrin dealltwriaeth werthfawr o'r broses asesu, gwella eich set sgiliau, gwella eich dealltwriaeth o'ch pwnc a llywio eich addysgu. | Arholi gyda ni \| CBAC |

© WJEC CBAC Ltd.2026

**Cynnwys**

| | Tudalen |
|---|---|
| Crynodeb gweithredol | 5 |
| Uned 1 | 7 |
| Uned 2 | 11 |
| Uned 3 | 15 |
| Uned 4: | 19 |
| Uned 5: | 22 |
| Uned 6: | 25 |
| Eich cefnogi chi – manylion cyswllt a chysylltau defnyddiol | 28 |

© WJEC CBAC Ltd.2026

## Crynodeb Gweithredol

Yn gyffredinol, mae perfformiad cadarnhaol yn Uned 1, gyda'r rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o gysyniadau allweddol Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, defnydd effeithiol o derminoleg benodol i'r sector, ac ymgysylltiad cryf ar draws yr amcanion asesu. Ar y cyfan, cwblhaodd yr ymgeiswyr yr arholiad yn llwyddiannus, a gwnaethon nhw'n arbennig o dda ar gwestiynau'n ymwneud â llesiant, dulliau cyfannol, hybu iechyd a ffactorau ffordd o fyw. Roedd y meysydd i'w datblygu yn cynnwys sicrhau eu bod yn cwmpasu'r fanyleb lawn yn gynhwysfawr, cryfhau dealltwriaeth o eiriau gorchymyn a'r gofynion asesu, a gwella cymhwyso cysyniadau fel gwydnwch a thrafodaeth werthusol. Bydd parhau i ganolbwyntio ar dechneg arholiad, ymarfer wedi'i amseru ac ehangder y fanyleb yn gymorth i gael rhagor o welliannau mewn canlyniadau asesu yn y dyfodol.

Mae Uned 2 yn amlygu perfformiad cryf ar y cyfan ar draws yr Asesiad Di-arholiad, gyda'r rhan fwyaf o'r canolfannau'n dangos asesu cywir, paratoi ymgeiswyr yn effeithiol, a chwmpasu gofynion y fanyleb yn dda. Cynhyrchodd yr ymgeiswyr waith wedi'i strwythuro'n dda a oedd yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar draws y ddwy dasg, yn enwedig mewn perthynas â rolau ymarferwyr, deddfwriaeth, gofal person-ganolog, arferion sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, a dulliau seiliedig ar hawliau. Fodd bynnag, er mwyn cyrraedd y bandiau marciau uwch, mae angen i ymgeiswyr roi mwy o ddyfnder, cymhwyso a gwerthuso yn unol â'r amcanion asesu a'r geiriau gorchymyn. Hefyd, mae'r Uwch Gymedrolwr yn nodi bod angen gwella cywirdeb gweinyddol, anodi gwaith wedi'i asesu yn fwy cadarn, cyfiawnhau'r marciau a roddwyd yn fwy eglur, a pharhau i bwysleisio cysylltu tystiolaeth yn uniongyrchol â'r meini prawf asesu a chynnwys y fanyleb.

Mae Uned 3 yn amlygu perfformiad cyffredinol cryf, gyda'r ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth gadarn o'r fanyleb, cymhwyso gwybodaeth at astudiaethau achos yn effeithiol, a pherfformiad gwell ar draws pob amcan asesu. Rhoddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr gynnig ar bob cwestiwn a dangos cryfderau mewn meysydd fel damcaniaeth ymlyniad, chwarae a datblygiad, rheoli ymddygiad, a chymhwyso safbwyntiau damcaniaethol at ymarfer. Hefyd, nodwyd gwelliannau mewn ymatebion i gwestiynau Amcanion Asesu wedi'u rhannu, gan adlewyrchu paratoi llwyddiannus gan ganolfannau. Mae'r meysydd i'w datblygu ymhellach yn cynnwys cryfhau'r ddealltwriaeth o ddamcaniaeth Bruner, gwella sgiliau dadansoddi a gwerthuso mewn cwestiynau uwch eu marciau, a sicrhau gwahaniaethu eglur rhwng damcaniaethwyr allweddol ac ymagweddau datblygiadol.

Mae Uned 4 yn amlygu perfformiad cryf iawn gan ymgeiswyr ar draws y ddwy dasg wedi'u hasesu, gyda llawer o ddysgwyr yn cael marciau uchel ac yn dangos gwelliannau eglur o ran ansawdd yr ymchwil, cymhwyso i sectorau, cyfeirnodi a chyflwyno. Yn gyffredinol, dangosodd yr ymgeiswyr ddealltwriaeth gadarn o ddarpariaeth gofal plant a pholisi cymdeithasol yng Nghymru, gan gymhwyso eu gwybodaeth yn effeithiol at y gofynion asesu a chynhyrchu gwaith wedi'i strwythuro'n dda. Roedd perfformiad cryf yn arbennig o amlwg yn Nhasg 2, lle dangosodd ymgeiswyr ddealltwriaeth fanwl o bolisïau, diogelu, cyfrifoldebau ymarferwyr a'r fenter benodol, *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair*. Mae'r meysydd i'w datblygu ymhellach yn cynnwys cymhwyso cyson at y lleoliad gofal plant o'u dewis, osgoi gorddibynnu ar astudiaethau achos, cryfhau ymatebion gwerthusol ar gyfer bandiau marciau uwch, a rhoi dadansoddiad manylach o sut mae lleoliadau'n bodloni anghenion plant drwy ddulliau sy'n canolbwyntio ar y plant a'r canlyniadau.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Mae Uned 5 yn gadarnhaol, gyda'r rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o ddamcaniaethau seicolegol, dulliau a chysyniadau allweddol, ac yn cymhwyso'r rhain yn effeithiol at yr astudiaeth achos a ryddhawyd ymlaen llaw a'r cwestiynau arholiad nas gwelwyd. Yn gyffredinol, cwblhaodd yr ymgeiswyr bob cwestiwn, dangoson nhw ddefnydd da o derminoleg benodol i bwnc a pharatoi effeithiol at yr arholiad, yn enwedig mewn perthynas â chymhwyso astudiaethau achos a rheoli amser. Roedd perfformiad cadarn yn amlwg mewn meysydd fel deallusrwydd emosiynol, gwydnwch, dulliau adferol, damcaniaeth seicodynamig a therapi addasu ymddygiad. Er mwyn gwella canlyniadau eto, dylai ymgeiswyr ganolbwyntio'n fwy manwl ar y geiriau gorchymyn mewn cwestiynau, cryfhau eu gallu i werthuso cryfderau a chyfyngiadau, datblygu dealltwriaeth ddofn o'r cysylltiadau rhwng damcaniaethau seicolegol a dulliau cysylltiedig, a sicrhau bod egwyddorion gofal sy'n canolbwyntio ar y person yn cael eu cymhwyso'n hyderus yn eu hymatebion.

Mae Uned 6 yn amlygu perfformiad cyffredinol cryf ar draws yr Asesiad Di-arholiad, gyda'r gwaith i gyd wedi'i gyflwyno'n brydlon a'r rhan fwyaf o'r canolfannau'n dangos arferion asesu cadarn, sgiliau ymchwilio effeithiol a dealltwriaeth dda o'r fanyleb gan ymgeiswyr. Yn gyffredinol, cynhyrchodd ymgeiswyr waith wedi'i strwythuro'n dda, gan ddangos cryfderau mewn meysydd fel gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, trawsnewidiadau, diogelu, polisi cymdeithasol ac effaith datblygiadau gwasanaeth mewn iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Nodwyd gwelliannau o ran sut roedd yr ymgeiswyr yn cymhwyso gwybodaeth at rolau ymarferwyr a lleoliadau, ynghyd â defnydd cryfach o ymchwil a chyfeirnodi. Mae'r meysydd i'w datblygu ymhellach yn cynnwys dewis lleoliadau gofal mwy priodol, cryfhau ymatebion dadansoddol a gwerthusol yn unol â geiriau gorchymyn, gwella'r cymhwyso at leoliadau penodol drwy gydol tasgau, a sicrhau bod penderfyniadau asesu'n adlewyrchu gofynion y cynllun marcio'n agos.

© WJEC CBAC Ltd.2026

**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT**

**TAG**

**Haf 2026**

**UNED 1 HYBU IECHYD A LLESIANT**

**Trosolwg o'r Uned**

Dyma'r seithfed papur arholiad ar gyfer y cymhwyster hwn, a dylid canmol canolfannau am baratoi ymgeiswyr ar lefel Uwch Gyfrannol. Roedd yn galondid gweld bod y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi cwblhau pob cwestiwn ar y papur arholiad a'u bod wedi neilltuo digon o amser i gwblhau'r cwestiwn olaf ar y papur, sef y cwestiwn a oedd yn cynnig y nifer uchaf o farciau.

Dangosodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wybodaeth a dealltwriaeth dda o'r sectorau, gan wneud defnydd rheolaidd o derminoleg sector-benodol ar draws amcanion asesu AA1, AA2 ac AA3.

Fodd bynnag, roedd ychydig o ymgeiswyr yn llai cyfarwydd â rhywfaint o gynnwys angenrheidiol y fanyleb. Gall y papur arholiad hwn ymdrin ag unrhyw agwedd ar y fanyleb a dylai canolfannau sicrhau bod ymgeiswyr yn gyfarwydd â chynnwys y fanyleb gyfan.

Dylai canolfannau hefyd sicrhau bod eu hymgeiswyr yn gallu deall a chymhwyso'r geiriau gorchymyn gwahanol, megis 'disgrifiwch', 'esboniwch' a 'thrafodwch' ar gyfer AA1, AA2 ac AA3 yn y drefn honno.

**Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol**

**Cw.1** (a) Roedd hwn yn gwestiwn cyntaf hygyrch ar gyfer AA1, a chafwyd atebion da ar y cyfan. Llwyddodd nifer sylweddol o ymgeiswyr i gael marciau llawn. Disgrifiodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr dri o'r nodau a osodwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 megis 'Cymru Iachach', 'Cymru Fwy Cytbwys', 'Cymru Ffyniannus', 'Cymru o Gymunedau Cydlynol' a 'Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu',a 'Cymru Gydnerth'. Rhoddwyd un marc am nodi nod priodol, a marc ychwanegol am ddisgrifiad eglur a oedd yn ymhelaethu ar bob nod. Cyfeiriodd ychydig o ymgeiswyr at ddarn anghywir o ddeddfwriaeth neu roedd eu gwybodaeth benodol o'r Ddeddf ofynnol yn gyfyngedig.

(b) Atebwyd y cwestiwn AA1 hwn yn dda gan ychydig o ymgeiswyr a oedd â gwybodaeth dda o'r ffyrdd o weithio i gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac yn aml roedden nhw'n cael marciau llawn.

Ni roddodd rhai ymgeiswyr gynnig ar ateb y cwestiwn hwn, a rhoddodd ymgeiswyr eraill gynnig arno ond heb ateb y cwestiwn a osodwyd. Yn aml, ailadroddodd ymgeiswyr eu hateb Cw1(a) drwy ddisgrifio nodau'r Ddeddf neu ganlyniadau dymunol y Ddeddf. Rhaid i ganolfannau sicrhau bod ymgeiswyr yn wybodus am gynnwys y fanyleb gyfan a'u bod yn cael eu cynghori i ddarllen y cwestiynau arholiad yn ofalus er mwyn canolbwyntio ar y cwestiwn a osodwyd.

© WJEC CBAC Ltd.2026

**Cw.2** Cwestiwn AA1 oedd hwn a oedd yn gofyn i ymgeiswyr ddisgrifio nodweddion y model biofeddygol ar gyfer iechyd, anabledd a llesiant.

Yn gyffredinol, atebwyd y cwestiwn hwn yn dda, a disgrifiodd yr ymgeiswyr amrywiaeth o nodweddion y model, gan eu galluogi i gael canlyniadau bandiau marciau 3 a 4. Roedd rhai ymatebion canmoladwy, yn cyfeirio'n fanwl at ryngddibyniaeth y ffactorau biolegol, seicolegol a chymdeithasol. Cafodd ymgeiswyr farciau yn y bandiau uchaf drwy gyfeirio at enghreifftiau priodol o gyd-destun y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol i roi enghreifftiau o bwyntiau allweddol, megis rhyngddibyniaeth y ffactorau biolegol, seicolegol a chymdeithasol i unigolyn.

**Cw.3** (a) Roedd y cwestiwn AA3 hwn yn gofyn am ystyried dewisiadau ffordd o fyw y gallai Dylan eu gwneud er mwyn gwella ei iechyd, ei lesiant a'i wydnwch.

Rhoddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr ddisgrifiadau manwl gyda rhywfaint o ystyriaeth i amrywiaeth o ddewisiadau ffordd o fyw cadarnhaol, fel gwneud rhagor o ymarfer corff ac osgoi camddefnyddio sylweddau er mwyn gwella iechyd a llesiant Dylan. Braf oedd gweld bod yr ymgeiswyr wedi darllen y cwestiwn yn ofalus ac wedi cysylltu eu sylwadau â lleihad yn risg Dylan o ddatblygu clefyd y galon. Fodd bynnag, er mwyn cyrraedd y bandiau marciau uwch, roedd rhaid i'r ymgeiswyr ystyried sut gallai'r dewisiadau ffordd o fyw wella gwydnwch Dylan. Er i rai ymgeiswyr gyfeirio at 'wydnwch', doedden nhw ddim yn cysylltu sut gallai ffordd iach o fyw wella gwydnwch Dylan a'i allu i ymdopi â heriau yn ei fywyd yn y dyfodol.

Atebodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr y cwestiwn hwn yn dda, a chafwyd rhai ymatebion manwl eithriadol a gyrhaeddodd y bandiau marciau uchaf.

(b) Roedd y cwestiwn AA2 hwn yn gofyn am esboniad o fanteision defnyddio dull cyfannol i unigolion, fel Dylan. Nododd ac esboniodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr fanteision y dull cyfannol fel y cymorth i iechyd corfforol ac iechyd meddwl, a'r cyfle i roi mwy o ofal sy'n canolbwyntio ar y person sy'n grymuso Dylan.

Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol fod y gair gorchymyn 'esboniwch' yn gofyn iddyn nhw nodi neu ddisgrifio ffactor a gaiff wedyn ei ddehongli neu ei ddatblygu ymhellach. Roedd gan ymgeiswyr y band marciau uchaf wybodaeth a dealltwriaeth o'r dull cyfannol, a gafael hyderus ar y manteision i unigolion fel Dylan wrth ei gymhwyso yn y sector.

**Cw.4** Roedd y cwestiwn AA3 hwn yn gofyn am archwilio sut mae egwyddorion craidd Gofal Iechyd Darbodus yn bwriadu gwella darpariaeth gwasanaethau yng Nghymru. Yr egwyddorion craidd yw cyd-gynhyrchu, blaenoriaethu'r rhai sydd â'r angen mwyaf, lleihau gwastraff ac ymyrryd yn ddiangen, a defnyddio gofal yn seiliedig ar dystiolaeth.

Doedd gan rai ymgeiswyr braidd ddim gwybodaeth neu ddealltwriaeth o Ofal Iechyd Darbodus, ac ni roddodd ychydig o ymgeiswyr gynnig ar ateb y cwestiwn hwn.

© WJEC CBAC Ltd.2026

**Cw.5** (a) Roedd y cwestiwn AA1 hwn yn gofyn am ddisgrifiad o fesurau ataliol lleol neu genedlaethol sy'n ceisio gwella iechyd oedolion yng Nghymru.

Disgrifiodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr fesurau cenedlaethol i oedolion, fel rhaglenni sgrinio a brechu. Cyfeiriodd ychydig o ymgeiswyr at fesurau lleol, fel grwpiau i gefnogi camddefnyddio sylweddau. Cyfeiriodd ychydig o ymgeiswyr at fesurau i gefnogi plant fel 'Cynllun Gwên', yn hytrach nag at ymgyrchoedd i oedolion, fel roedd y cwestiwn yn gofyn amdano.

Dim ond at un neu'r llall y cyfeiriodd rhai ymgeiswyr, er bod y cwestiwn yn nodi 'mesurau', ac felly doedden nhw ddim yn gallu cyrraedd y bandiau marciau uwch.

(b) Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn am drafodaeth AA3 o sut gall yr ymgyrch 'Cynllun Gwên' wella iechyd a llesiant plant yng Nghymru. Atebwyd y cwestiwn hwn yn dda gan y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr. Fodd bynnag, doedd gan rai ymgeiswyr ddim unrhyw wybodaeth neu ddealltwriaeth am fanylion yr ymgyrch hon neu wnaethon nhw ddim rhoi cynnig ar ateb y cwestiwn hwn.

Rhoddodd ymatebion y bandiau marciau uchaf drafodaeth eglur a manwl, gan ddefnyddio enghreifftiau o'r ymgyrch fel cefnogaeth ymarferol gyda brwsio dannedd ac iechyd y geg, a'r cysylltiad rhwng iechyd, ymddygiad, cyrhaeddiad a hapusrwydd. Trafododd rhai ymgeiswyr hefyd sut mae'n bosibl grymuso plant i weithredu mewn ffordd gadarnhaol mewn perthynas â'u hiechyd a'u llesiant o oedran cynnar, a fydd yn lleihau cyfraddau salwch a'r straen ar wasanaethau'r GIG yn y dyfodol.

**Cw.6** Roedd y cwestiwn AA2 hwn yn gofyn am esboniad o sut mae'r dull person-ganolog o hybu iechyd yn gallu cefnogi iechyd, llesiant a gwydnwch unigolyn. Yn gyffredinol, atebwyd y cwestiwn hwn yn dda. Dangosodd yr ymgeiswyr wybodaeth a dealltwriaeth dda o'r dull person-ganolog o ran teilwra cymorth yn bersonol i fodloni anghenion unigolyn mewn darpariaeth gwasanaethau priodol sy'n integredig a chydlynol.

Fodd bynnag, roedd angen i ymgeiswyr roi sylw i sut mae'r dull hwn yn cefnogi gwydnwch er mwyn cyrraedd y bandiau marciau uwch.

**Cw.7** Hwn oedd y cwestiwn olaf ar y papur arholiad. Aeth ymgeiswyr ati i ateb y cwestiwn mewn gwahanol ffyrdd. I ddechrau, rhoddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr ddisgrifiad o sut gall byw mewn tlodi effeithio ar iechyd, llesiant a gwydnwch Maria ar gyfer AA1. Wedyn trafodon nhw sut gall ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol gefnogi menywod beichiog a babanod er mwyn rhoi sylw i AA3. Rhoddodd ychydig o ymgeiswyr ymateb integredig, gan drafod gwaith ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol penodol wrth gefnogi Maria a'i baban yng nghyd-destun eu disgrifiad o effeithiau byw mewn tlodi ar iechyd, llesiant a gwydnwch Maria.

Roedd ychydig o ymgeiswyr heb roi cynnig ar ateb y cwestiwn hwn. Rhoddodd ymgeiswyr eraill ddisgrifiad sylfaenol a thrafodaeth gyfyngedig oherwydd nad atebon nhw'r cwestiwn a osodwyd neu oherwydd nad oedd digon o amser ar ôl i orffen eu hymateb.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Ar gyfer y disgrifiad AA1, nododd ymgeiswyr sut gallai tlodi effeithio ar iechyd a llesiant Maria. Cyfeirion nhw at sut gallai tlodi gael effaith negyddol ar ei deiet, ei llety a'i mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, gan arwain at beryglon niwed, salwch neu glefydau. Cyfeiriodd rhai ymgeiswyr yn anghywir at yr effeithiau ar y baban yn hytrach na'r rhai ar Maria a roddon nhw ddim sylw i sut gall byw mewn tlodi effeithio ar wydnwch Maria. Fodd bynnag, cyflwynodd ychydig o ymgeiswyr ymatebion yn y band marciau uchaf drwy ddatblygu effeithiau byw mewn tlodi ar iechyd a llesiant Maria a chysylltu'r rhain â'i gwydnwch, a allai fod naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol, yn dibynnu ar ei gallu i ymdopi â'r heriau amgylcheddol hyn.

Ar gyfer y drafodaeth AA3, soniodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr am ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol priodol ond roddon nhw ddim sylw bob amser i'r gair gorchymyn 'trafodwch', yn hytrach rhoddon nhw ddisgrifiad neu esboniad o'u rôl. Wnaeth rhai ymgeiswyr ddim enwi ymarferwyr penodol ond cyrhaeddon nhw'r bandiau marciau is drwy drafod nodweddion eu rôl. Trafododd ychydig o ymgeiswyr rôl yr ymarferwyr ar gyfer naill ai Maria neu ei baban yn unig, er bod y cwestiwn yn gofyn am gyfeirio at y fam a'r baban. Trafododd ychydig o ymgeiswyr rôl un ymarferwr yn unig, ond roedd y cwestiwn yn gofyn am gyfeirio at o leiaf ddau ymarferwr iechyd a gofal cymdeithasol.

Fodd bynnag, roedd rhai ymatebion canmoladwy a oedd yn trafod rolau amrywiaeth o ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gallu cefnogi menywod beichiog a babanod, gan gyfeirio'n benodol at gyd-destun Maria, sef byw mewn tlodi.

**Crynodeb o'r pwyntiau allweddol:**

1. Mae angen i ymgeiswyr ddarllen pob cwestiwn arholiad yn ofalus iawn er mwyn canolbwyntio ar:

    - Ateb y cwestiwn a osodwyd. Dylid annog ymgeiswyr i uwcholeuo neu danlinellu geiriau allweddol yn y cwestiwn er mwyn osgoi gwneud gwallau o ran y cyfarwyddyd neu ddim ond ateb rhan o'r cwestiwn a osodwyd.
    - Ymateb i'r gair gorchymyn cywir yn y cwestiwn arholiad.
    - Gwirio'r marciau a ddyfernir ar gyfer y cwestiwn arholiad. Mae 80 o farciau i'w hennill yn y papur arholiad hwn, sy'n cyfateb i tua 1.5 munud i bob marc. Felly, er enghraifft, dylid cwblhau cwestiwn gwerth 6 marc o fewn tua 9 munud.

2. Byddai ymgeiswyr yn elwa ar ymarfer cwestiynau arholiad yn rheolaidd fel bod yr arholiad terfynol o bosibl yn achosi llai o straen, a heb fod yn brofiad anghyfarwydd iddyn nhw. Mae angen i ymgeiswyr ddod yn fwy hyderus o ran cymhwyso'r geiriau gorchymyn gwahanol fel eu bod yn gallu cael mynediad at y bandiau marciau uchaf ac ennill marciau yma. Mae'r cynlluniau marcio o gyn-bapurau arholiad hefyd yn gallu bod yn adnoddau gwerthfawr i ategu gweithgareddau addysgu a dysgu. Gall ymarfer ffug-arholiad llawn helpu ymgeiswyr i wella eu sgiliau rheoli amser ac i osgoi gwneud gwallau o ran y cyfarwyddyd yn y dyfodol.

3. Dylai canolfannau sicrhau bod eu hymgeiswyr yn gyfarwydd â holl gynnwys Uned 1 y Fanyleb. Bydd arholiadau yn y dyfodol yn parhau i ganolbwyntio ar unrhyw ran o'r Fanyleb.

4. Dylid annog ymgeiswyr i ddefnyddio geirfa a therminoleg sector-benodol, fel y nodwyd yn y Fanyleb.

© WJEC CBAC Ltd.2026

**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT**

**TAG**

**Haf 2026**

**UNED 2 CEFNOGI IECHYD, LLESIANT A GWYDNWCH YNG NGHYMRU**

**Trosolwg o'r Uned**

Argymhellir bod canolfannau'n gwneud sylwadau ar ffurflenni datganiad a lle mae marciau wedi'u dyfarnu i'w rhannu rhwng Amcanion Asesu. Anogir anodiadau ar waith a chynnwys taflenni marciau, yn amlygu lle y dyfarnwyd marciau, gan y bydd hyn yn cynorthwyo'r broses gymedroli i gyfiawnhau marciau a roddwyd.

Roedd gwallau gweinyddol ar ffurflenni datganiad yn gyffredin yn y gyfres hon, gan gynnwys dim llofnodion, dim dyddiadau, a marciau terfynol heb fod yn cyfateb i'r rhai ar Borth CBAC. Mae angen bod yn fwy effeithlon wrth wneud gwiriadau gweinyddu.

Mae gofyniad rheoleiddio ar CBAC i sicrhau bod unrhyw waith asesu di-arholiad a gyflwynir i'w asesu yn gallu cael ei ddilysu fel gwaith digymorth yr ymgeisydd. Rhaid i ymgeiswyr ac athrawon lofnodi a dyddio ffurflen datganiad i gadarnhau mai gwaith digymorth yr ymgeisydd yw'r gwaith a gyflwynir i'w asesu'n derfynol.

Gwelwyd gwaith asesu cywir gan y rhan fwyaf o'r canolfannau. Dylid nodi, er mwyn cyrraedd y bandiau marciau uwch, fod rhaid i ymgeiswyr roi tystiolaeth fanylach sy'n bodloni gofynion y fanyleb, yr amcanion asesu a'r geiriau gorchymyn. Argymhellir bod canolfannau'n treulio amser yn mynd dros y cynllun marcio a'r meini prawf gyda'r ymgeiswyr cyn dechrau ar yr Asesiad Di-arholiad, fel bod yr ymgeiswyr yn dod i ddeall gofynion y bandiau marciau yn well.

Gall canolfannau ddod o hyd i'r ddeddfwriaeth benodol, y polisi ar gyfer 'Tasg 2 Adran Dd' ar safle Porth CBAC, o dan Adnoddau>Tasgau Asesu Di-arholiad. Bob cyfres arholiadau, mae CBAC yn cyhoeddi manylion am ddarn penodol o ddeddfwriaeth, neu bolisi penodol, y mae'n rhaid i ddysgwyr gyfeirio ato yn eu gwaith.

**Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol**

**Tasg 1**

Roedd y tasgau wedi'u cwblhau yn eu trefn ac wedi'u cyflwyno mewn fformat priodol ar gyfer adroddiad. Dewisodd ymgeiswyr rolau swyddi priodol o'r sectorau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn deall y rolau o fewn y sectorau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant cyn penderfynu ar y ddwy rôl swydd. Roedd tystiolaeth o ymchwil a gynhaliwyd cyn dechrau'r asesiad di-arholiad wedi'i chofnodi'n dda ac wedi'i chyfeirnodi'n dda ar gyfer y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr.

**Adran A – Cynnwys 2.2.3 (c)**

Ymdriniaeth dda o 2.2.3(c). Rhoddodd yr ymgeiswyr amlinelliadau da o rolau swyddi, cyfleoedd cyflogaeth a llwybrau gyrfa posibl dau ymarferwr sy'n gweithio yn y sectorau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yng Nghymru. Roedd yr ymchwil yn berthnasol ac wedi'i chymhwyso'n briodol. Rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod yr adroddiad wedi'i gwblhau yn eu geiriau eu hunain, a lle maen nhw wedi defnyddio ymchwil ac adnoddau, mae'n rhaid cyfeirnodi'r rhain.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Does dim meini prawf gosod i ymgeiswyr gynnwys sut mae'r rôl swydd yn effeithio ar eu hiechyd a'u llesiant (PIES (Corfforol, Deallusol, Emosiynol, Cymdeithasol)), neu gynnwys disgrifiad 'disgrifiad ym mywyd' helaeth. Mae angen i gynnwys 2.2.3(c) gael ei gysylltu'n fwy penodol â meini prawf, yn benodol, cysylltu cyfleoedd a llwybrau cyflogaeth â chyfleoedd am ddyrchafiad neu gynnydd, meysydd arbenigedd a/neu leoliadau daearyddol, er mwyn cyrraedd band marciau uwch. Mae'r wybodaeth hon i'w gweld ar dudalen 36 y fanyleb.

**Adran B – Cynnwys 2.2.2(a), (ch) a 2.2.4 (a)**

Ymdriniaeth dda of 2.2.2(a), (ch) a 2.2.4 (a). Dangosodd yr ymgeiswyr wybodaeth a dealltwriaeth dda o sut mae deddfwriaeth, mentrau a rheoliadau cyfredol yn cefnogi ac yn effeithio ar y broses o ddarparu gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant cynaliadwy o ansawdd uchel yng Nghymru. Gair i'ch atgoffa, does dim angen i'r rhain gael eu cysylltu â'r rolau swyddi yn Adran A.

Mae angen i gynnwys 2.2.2(a), (ch) a 2.2.4 (a) gael ei gysylltu'n fwy penodol â'r meini prawf asesu. Yn benodol, dylai'r ymgeiswyr drafod effaith deddfwriaeth, rheoliadau a mentrau ar wasanaethau gofal cynaliadwy a gofal o ansawdd uchel, er mwyn cyrraedd band marciau uwch. Mae'n bwysig bod canolfannau dim ond yn rhoi marciau am AA3 lle mae ymgeiswyr wedi trafod yn eglur yr effaith ar wasanaethau gofal cynaliadwy a gofal o ansawdd uchel. Gellir dod o hyd i restr o ddeddfwriaeth, rheoliadau a mentrau ar dudalennau 38-39 y fanyleb.

**Adran C (i) – AA2 2.2.2(c)**

Ymdriniaeth dda o 2.2.2(c). Rhoddodd yr ymgeiswyr esboniadau da o amrywiaeth o sgiliau a thechnegau sy'n cael eu cymhwyso at hybu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Mae angen i gynnwys o AA2 2.2.2 (c) gael ei gysylltu'n fwy penodol â'r meini prawf asesu. Er mwyn cyrraedd band marciau uwch, mae angen i ymgeiswyr sicrhau bod y sgiliau a'r technegau'n cael eu cymhwyso at arferion gwaith i hybu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. I gyrraedd bandiau marciau uwch, mae angen i gynnwys AA2 2.2.2(c) gael ei gymhwyso at yr ymarferwr a ddewiswyd, gan roi mwy o esboniad o ran sut gall yr ymarferwr gymhwyso'r sgiliau i hybu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Mae rhestr o sgiliau a thechnegau i'w gweld ar dudalen 31 y fanyleb.

**Adran A (ii) – AA2 2.2.2(b) a 2.2.2(d)**

Ymdriniaeth dda o 2.2.2(b) a 2.2.2(d). Rhoddodd yr ymgeiswyr esboniadau da o'r egwyddorion gofal a'r gwerthoedd craidd sy'n sail i'w harferion gwaith, a sut maen nhw'n cael eu cymhwyso. Hefyd, rhoddon nhw esboniadau da o sut mae ymarferwyr yn gweithio o fewn timau amlddisgyblaethol i sicrhau bod canlyniadau personol yn cael eu cyflawni. Mae angen i gynnwys AA2 2.2.2(b) a 2.2.2(d) gael ei gysylltu'n fwy penodol â'r meini prawf asesu, yn benodol, mae angen cymhwyso egwyddorion gofal at yr ymarferwr a ddewiswyd er mwyn cyrraedd y bandiau marciau uwch. Mae rhestr o egwyddorion a gwerthoedd craidd i'w gweld ar dudalen 30 y fanyleb.

Mae angen ymdrin â chynnwys AA2 2.2.2(b) a 2.2.2(d) yn fanwl ac mae angen i ymgeiswyr sicrhau eu bod yn trafod y tîm amlddisgyblaethol a gweithio mewn partneriaeth i'r un lefel â'r egwyddorion a gwerthoedd craidd cyn i farciau uwch gael eu rhoi. Mae angen esbonio egwyddorion gofal mewn perthynas â'r ffordd maen nhw'n helpu i sicrhau gofal person/plentyn-ganolog o ansawdd uchel. Mae angen esbonio gweithio mewn tîm amlddisgyblaethol a gweithio mewn partneriaeth o ran sut maen nhw'n cefnogi unigolion i nodi a chyflawni canlyniadau personol.

© WJEC CBAC Ltd.2026

**Tasg 2**

Cwblhawyd Tasg 2 mewn fformat priodol i'w chyflwyno, sef blog neu ffeithlun. Lluniodd mwyafrif yr ymgeiswyr gyflwyniad. Roedd rhai wedi cynnwys nodiadau PowerPoint hefyd. Dylid annog ymgeiswyr i gynnwys cymaint o wybodaeth â phosibl yn y cyflwyniad. Dylai ymgeiswyr ddilyn strwythur yr asesiad (Adran A, B, C ac ati) a dylid defnyddio'r adrannau hyn fel teitlau. Byddai hyn yn helpu i gynhyrchu gwaith cydlynol. Roedd tystiolaeth o ymchwil a gynhaliwyd cyn dechrau'r asesiad di-arholiad wedi'i chofnodi'n dda ac wedi'i chyfeirnodi dda ar gyfer y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr.

**Adran A – AA2 2.2.1(c)**

Ymdriniaeth dda o 2.2.1(c). Rhoddodd yr ymgeiswyr esboniadau da o sut gellid nodi ac asesu dau o anghenion penodol yr unigolyn er mwyn nodi a chyflawni canlyniadau personol. Rhaid i ymgeiswyr sicrhau eu bod yn ymdrin ag anghenion (Corfforol, Deallusol, Emosiynol, Cymdeithasol ac Ieithyddol) yr unigolyn. Mae angen mwy o ddyfnder a manylion ar yr ymdriniaeth o'r ffordd y gellid asesu'r anghenion hynny i nodi a chyflawni canlyniadau personol er mwyn cyrraedd band marciau uwch. Mae angen ymdriniaeth lawn o 2.2.1(c) er mwyn ennill marciau uwch.

**Adran B – AA1 ac AA2 2.2.1(a) a (b)**

Ymdriniaeth dda o 2.2.1(a) a 2.2.1(b). Rhoddodd yr ymgeiswyr amlinelliadau da o sut gellir cefnogi'r unigolyn i nodi cryfderau, ac esboniad da o sut gallai hyn helpu i gyflawni canlyniadau personol a meithrin gwydnwch. Dangosodd yr ymgeiswyr ymdriniaeth dda wrth amlinellu cryfderau a chanlyniadau personol yr unigolion, ac ymdriniaeth dda o'r strategaethau y gall yr unigolyn eu defnyddio i nodi cryfderau a chanlyniadau personol. Mae angen i gynnwys AA1, AA2, 2.2.1(a) a 2.2.1(b) fod â mwy o ddyfnder a manylder er mwyn cyrraedd band marciau uwch. Ar gyfer AA2, bydd mwy o fanylion penodol o ran sut gall ymarferwyr gefnogi'r unigolyn i nodi cryfderau a chanlyniadau personol, cyflawni canlyniadau personol, a meithrin gwydnwch, yn helpu ymgeiswyr i gyrraedd y bandiau marciau uwch.

**Adran C – AA3 2.2.1(ch)**

Ymdriniaeth dda o 2.2.1(ch). Astudiaethau da o'r ffyrdd y mae'n bosibl cefnogi'r unigolyn i fesur ei gynnydd yn erbyn canlyniadau personol.

Ymdriniwyd â chynnwys AA3 2.2.1(ch) yn dda ac roedd wedi'i gysylltu'n fanwl â'r unigolion. Mae angen i ymgeiswyr sicrhau eu bod yn archwilio amrywiaeth eang o ffyrdd y gall yr unigolyn a ddewiswyd gael ei gefnogi i fesur ei gynnydd yn erbyn canlyniadau personol.

**Adran Ch – AA1 ac AA3 2.2.3(a) a (ch)**

Ymdriniaeth dda o 2.2.3(a) a 2.2.3(ch). Rhoddodd yr ymgeiswyr amlinelliadau da o strwythur darpariaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant berthnasol yng Nghymru, ac ystyriaethau o sut mae'r rhain yn cyferbynnu â'r hyn sydd ar gael mewn mannau eraill yn y DU. Rhaid annog ymgeiswyr i gysylltu cynnwys AA1, AA3, 2.2.3(a) a 2.2.3(ch) â'u hunigolyn. Mae angen ymdriniaeth fwy manwl a dwfn o gynnwys AA1 ac AA3, 2.2.3(a) a 2.2.3(ch) er mwyn cyrraedd band marciau uwch, yn enwedig, ystyried sut mae gwasanaethau perthnasol yng Nghymru yn cyferbynnu â'r rhai sydd mewn mannau eraill yn y DU.

© WJEC CBAC Ltd.2026

**Adran D – AA2 2.2.3(b)**

Ymdriniaeth dda o 2.2.3(b). Rhoddodd yr ymgeiswyr esboniadau da o gynaliadwyedd darpariaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yng Nghymru. Mae angen ymdriniaeth lawn o gynnwys AA2, 2.2.3(b) er mwyn cyrraedd band marciau uwch. Dangosodd ymgeiswyr wybodaeth dda am nod pedwarplyg *Cymru Iachach*.

**Adran Dd – AA2 ac AA3 2.2.4(a) a (b)**

Ymdriniaeth dda o 2.2.4(a) AA3 2.2.4(b). Rhoddodd yr ymgeiswyr esboniadau da o sut mae dulliau sy'n seiliedig ar hawliau yn rhan annatod o'r *Cynnig Rhagweithiol*, ac asesiadau o sut mae deddfwriaeth a pholisïau yn cydberthyn â'i gilydd, a'r effaith ar hawliau'r darparwr a'r unigolyn. Er mwyn cyrraedd band marciau uwch, mae angen ymdriniaeth fwy manwl o gynnwys AA2, 2.2.4(a), gydag esboniad manylach o sut mae dulliau sy'n seiliedig ar hawliau yn rhan annatod o *Y Cynnig Rhagweithiol*. Mae cynnwys AA3, 2.2.4(b) yn gofyn am fwy o asesu gwerthusol o sut mae deddfwriaeth a pholisïau'n cydberthyn a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar hawliau darparwyr ac unigolion hefyd er mwyn cyrraedd y bandiau marciau uwch.

© WJEC CBAC Ltd.2026

## IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT

## TAG

## Haf 2026

## UNED 3 SAFBWYNTIAU DAMCANIAETHOL YNGHYLCH DATBLYGIAD PLANT A PHOBL IFANC

### Trosolwg o'r Uned

Roedd safon gyffredinol ymatebion yr ymgeiswyr yn dda, a chyflawnwyd yr ystod lawn o farciau am bob cwestiwn. Ar y cyfan, dangosodd yr ymgeiswyr ddealltwriaeth gadarn o'r fanyleb a chymhwyson nhw eu gwybodaeth yn effeithiol at y cwestiynau arholiad, gyda'r mwyafrif yn rhoi cynnig ar bob cwestiwn. Yn nodedig, prin iawn, iawn oedd yr achosion lle roedd yr ymgeiswyr fel petaen nhw'n camddeall gofynion y cwestiwn.

### Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

**Cw.1** (a) Rhoddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr gynnig ar y cwestiwn hwn ac roedden nhw'n gallu amlinellu tri ffactor seicolegol a oedd yn cael effaith negyddol ar ddatblygiad ac ymddygiad Jamie. Rhoddodd ymgeiswyr llai llwyddiannus ffactorau a oedd naill ai'n gymdeithasegol neu'n fiolegol yn hytrach nag yn seicolegol, felly doedden nhw ddim wedi darllen y cwestiwn yn gywir, neu roedden nhw'n ansicr o ran pa ffactorau oedd yn seicolegol. Doedd rhai ymatebion ddim yn ddigon manwl i gael 2 farc am amlinell dda am bob ffactor a chawson nhw 1 marc am ymateb sylfaenol. Ar y cyfan, atebwyd hwn yn dda gyda rhai ymatebion rhagorol.

(b) Atebwyd y cwestiwn hwn yn dda gyda'r rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth dda o ffyrdd y gall chwarae geiriol a dychmygus gyda chyfoedion ac oedolion gefnogi datblygiad cyfannol Jamie. Roedd yr ymgeiswyr mwyaf llwyddiannus yn gallu disgrifio manteision chwarae geiriol a dychmygus i Jamie drwy bob maes datblygiad ac yn gallu cymhwyso hyn yn dda at yr astudiaeth achos, gan roi enghreifftiau perthnasol. Roedd yr ymgeiswyr llai llwyddiannus naill ai'n disgrifio chwarae geiriol neu ddychmygus yn unig neu'n cyfeirio at un neu ddau faes datblygiad yn unig nad oedd yn ddigon i gael y band marciau uwch.

(c) Roedd llawer o ymatebion da i'r cwestiwn hwn gyda'r ymgeiswyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o sut gallai amgylchedd dysgu cadarnhaol a chefnogol hybu ymddygiad cadarnhaol gan Jamie. Rhoddodd llawer o ymgeiswyr esboniad rhagorol neu dda o beth yw amgylchedd dysgu cadarnhaol a chefnogol, wedi'i gymhwyso'n effeithiol i Jamie gydag amrywiaeth o enghreifftiau o ffyrdd y gallai'r ysgol wneud hyn. Roedd yr ymgeiswyr na pherfformion nhw cystal yn ansicr o'r hyn yw amgylchedd dysgu cadarnhaol a chefnogol a doedden nhw ddim yn gallu rhoi enghreifftiau o hyn; rhoddodd rhai ymatebion annelwig neu ddryslyd neu esbonion nhw atgyfnerthiad cadarnhaol yn lle hynny.

**Cw.2** (a) Roedd rhywfaint o ymatebion rhagorol i'r cwestiwn hwn gan gyflawni band marciau 3. Gallai'r ymgeiswyr a berfformiodd yn arbennig o dda esbonio'r hyn yw therapi ymddygiadol ac asesu sut gallai helpu Jamie i ddod dros ei orbryder, gan gymhwyso'r cwestiwn yn effeithiol at yr astudiaeth achos.

© WJEC CBAC Ltd.2026

O ran yr ymgeiswyr na pherfformion nhw cystal, naill ai dim ond disgrifio beth yw therapi ymddygiadol wnaethon nhw heb ei gysylltu â Jamie neu roedden nhw'n ansicr o'r hyn yw therapi ymddygiadol a sut mae'n gallu goresgyn gorbryder.

(b) Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr ar gyfer AA1 yn gallu disgrifio sut mae damcaniaeth Vygotsky yn cefnogi datblygiad deallusol plant yn effeithiol a chafodd y rhan hon o'r cwestiwn ei hateb yn dda gan lawer o'r ymgeiswyr. Dangosodd yr ymgeiswyr wybodaeth amrywiol o ddamcaniaeth Vygotsky, gyda'r llai llwyddiannus yn cael trafferth disgrifio sut gall y ddamcaniaeth hon gael ei defnyddio i gefnogi datblygiad deallusol plant. Roedd yr ymgeiswyr mwyaf llwyddiannus yn gallu disgrifio'r ddamcaniaeth yn fanwl a'i chymhwyso at ddatblygiad deallusol plant gan ddefnyddio terminoleg gywir fel 'person arall mwy gwybodus', 'parth datblygiad procsimol' a dangos dealltwriaeth dda o egwyddorion sgaffaldu.

Ar gyfer AA3 roedd yr ymatebion mwyaf llwyddiannus yn gallu gwerthuso effeithiolrwydd dull gwybyddol Vygotsky wrth gefnogi dysgu a datblygiad mewn rolau ymarferwyr. Cymysgodd ymgeiswyr llai llwyddiannus rhwng ei waith a gwaith damcaniaethwyr gwybyddol eraill neu rhoddon nhw atebion disgrifiadol heb ddigon o ddadansoddi. Ar y cyfan, ymatebwyd yn arbennig o dda i'r adran AA1, ond roedd tystiolaeth dda bod ymgeiswyr yn gwella eu perfformiad ar gyfer AA3 ac roedd rhai enghreifftiau o ymatebion ardderchog yma gyda gwerthuso rhagorol o'r dull o ran dysgu a datblygiad plant.

**Cw.3** (a) Atebodd rhai ymgeiswyr y cwestiwn hwn yn dda gan ddangos eu gwybodaeth o bwysigrwydd cysondeb wrth hybu patrymau ymddygiad cadarnhaol drwy ddisgrifio ffyrdd gwahanol y mae'n bosibl dangos cysondeb gartref ac yn yr ysgol neu'r lleoliad ac effaith gadarnhaol hyn ar ymddygiad plant. Doedd ymgeiswyr na pherfformion nhw cystal ddim yn deall yn llawn beth yw cysondeb neu doedden nhw ddim yn gallu cymhwyso hyn at ymddygiad plant.

(b) Dangosodd ymgeiswyr wybodaeth dda o ddamcaniaeth ymlyniad ac atebwyd y cwestiwn hwn yn arbennig o dda gydag ymgeiswyr yn gallu rhoi esboniadau manwl a thrylwyr o ddamcaniaeth ymlyniad gyda llawer yn cysylltu hyn â damcaniaethau Bowlby a Rutter. Roedd y rhai a gafodd y marciau uchaf yn gallu esbonio canlyniadau posibl gwahanu tymor hir oddi wrth y prif ofalwyr yn y tymor byr a'r tymor hir. Roedd yr ymgeisydd a oedd yn llai llwyddiannus yn gallu disgrifio'r ddamcaniaeth ond roedden nhw'n llai hyderus wrth esbonio'r canlyniadau posibl. Gwnaeth ymgeiswyr rywfaint o ddefnydd rhagorol o derminoleg gywir fel monotropi, cyfnod critigol ac amddifadedd/amddifadrwydd yn y cwestiwn hwn.

(c) Dangosodd rhai ymgeiswyr wybodaeth dda o ddamcaniaeth Bruner, ond cafodd llawer drafferth wrth asesu sut gallai ymarferwyr ei defnyddio i gefnogi datblygiad gwybyddol. Cymysgodd ymgeiswyr llai llwyddiannus rhwng damcaniaeth Bruner a damcaniaethau damcaniaethwyr eraill neu disgrifion nhw'r ddamcaniaeth heb ei chymhwyso at rôl yr ymarferwr wrth gefnogi datblygiad gwybyddol plant.

**Cw.4** (a) Dangosodd ymgeiswyr wybodaeth dda o pam mae chwarae'n rhan hanfodol o fywyd pob plentyn ac roedden nhw'n gallu egluro gyda lefelau amrywiol o lwyddiant yr effaith gadarnhaol y mae chwarae yn ei chael ar ddatblygiad plentyn drwy feysydd datblygiad neu drwy roi enghreifftiau. Yn gyffredinol, atebwyd y cwestiwn hwn yn dda gan y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr.

© WJEC CBAC Ltd.2026

(b) Roedd llawer o ymatebion da i'r cwestiwn hwn a dangosodd ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o sut roedd chwarae rôl o fudd i ddatblygiad iaith plentyn. Roedd gan yr ymgeiswyr a berfformiodd orau wybodaeth dda o gerrig milltir datblygiad iaith ac roedden nhw'n gallu disgrifio sut roedd chwarae rôl yn cefnogi'r rhain. Roedd gan yr ymgeiswyr na pherfformiodd cystal wybodaeth gyfyngedig o sut mae iaith yn datblygu mewn plant neu gerrir milltir disgwyliedig datblygiad iaith i blentyn 4 blwydd oed.

(c) Cafodd rhai ymgeiswyr drafferth gyda'r cwestiwn hwn ac roedden nhw'n ansicr o'r hyn yw strategaethau dysgu sy'n seiliedig ar chwarae. Rhoddodd rhai ymgeiswyr ateb byr neu trafodon nhw therapi chwarae. Roedd yr ymgeiswyr mwyaf llwyddiannus yn gallu dangos eu gwybodaeth o strategaethau dysgu sy'n seiliedig ar chwarae a dadansoddi'r ffyrdd gwahanol y mae'r rhain yn gallu hybu agweddau gwahanol ar ddatblygiad plant.

**Cw.5** Braf oedd gweld y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn rhoi atebion manwl, wedi'u strwythuro'n dda i ddwy elfen y cwestiwn hwn. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu disgrifio'n llwyddiannus y ffactorau a allai effeithio ar ymddygiad Andy o'r astudiaeth achos ac roedden nhw'n gallu rhoi amrywiaeth o ffactorau ar draws y ffactorau cymdeithasegol, seicolegol a biolegol a dangos mewnwelediad a dealltwriaeth dda o sut gallai'r ffactorau hyn gael effaith ar ymddygiad person ifanc. Rhoddodd llawer o ymgeiswyr ymatebion yr un mor gynhwysfawr ac effeithiol i elfen AA3 y cwestiwn mewn perthynas ag asesu manteision defnyddio arferion adferol mewn ysgolion fel strategaeth ar gyfer datblygu perthnasoedd a phatrymau ymddygiad cadarnhaol, fel y gwnaethon nhw mewn perthynas â'r ffactorau sy'n effeithio ymddygiad ar gyfer AA1.

Cymhwysodd ymgeiswyr y cwestiwn hwn yn dda at astudiaeth achos Andrea ac Ellie. Gwnaeth rhai ymgeiswyr ddefnydd rhagorol o derminoleg arbenigol, yn arbennig mewn perthynas ag arferion adferol. Bu ymateb gwell gan ymgeiswyr i gwestiynau AA dwbl am yr ail flwyddyn, gan ddangos iddyn nhw gael eu paratoi'n effeithiol gan ganolfannau at yr arholiad hwn. Roedd gan yr ymgeiswyr na pherfformion nhw cystal wybodaeth gyfyngedig o arferion adferol a sut mae'n bosibl eu defnyddio fel strategaeth mewn ysgolion.

At ei gilydd, paratôdd canolfannau'r ymgeiswyr yn dda at yr arholiad hwn, fel dangoswyd gan eu gafael dda ar yr astudiaeth achos a'r perfformiad gwell ar y cwestiynau AA dwbl am yr ail flwyddyn.

O'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, roedd lleihad nodedig mewn ymatebion lle na ddyfarnwyd unrhyw farciau. Yn gyffredinol, dangosodd ymgeiswyr wybodaeth a dealltwriaeth gadarnach o'r fanyleb, gan ddangos gallu gwell i gysylltu eu hatebion â'r astudiaeth achos a safbwyntiau damcaniaethol o ddatblygiad plant ym mhob adran o'r papur. Dylid canmol canolfannau am eu hymroddiad, gan fod y gwelliannau hyn yn amlwg yn adlewyrchu addysgu a dysgu gwell ar draws pob agwedd ar y fanyleb eleni.

Ni pherfformiodd ymgeiswyr cystal ar gwestiwn 3c a oedd yn gysylltiedig â damcaniaeth Bruner a sut mae'n gallu cefnogi datblygiad gwybyddol, yr oedd hi'n ymddangos bod gan ymgeiswyr lai o ddealltwriaeth ohoni nag o ddamcaniaeth Vygotsky yn 2b. Roedd rhywfaint o dystiolaeth o hyd o ymgeiswyr yn drysu rhwng damcaniaethwyr ond llai nag yn y blynyddoedd blaenorol.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Roedd hi'n ymddangos bod ymgeiswyr wedi cael eu paratoi'n dda at yr arholiad, gydag ymatebion rhagorol niferus a oedd wedi'u strwythuro'n dda, yn llawn gwybodaeth, ac yn defnyddio terminoleg briodol benodol i'r fanyleb iechyd a gofal cymdeithasol/gofal plant.

At hynny, doedd dim arwydd bod ymgeiswyr wedi tanberfformio oherwydd cyfyngiadau amser. Gwellodd perfformiad hefyd am yr ail flwyddyn yn y cwestiynau Amcanion Asesu (AA) wedi'u rhannu, yn benodol 2b a 5, lle dangosodd ymgeiswyr ddealltwriaeth fwy eglur o ofynion AA3.

© WJEC CBAC Ltd.2026

**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT**

**TAG**

**Haf 2026**

**UNED 4 CEFNOGI DATBLYGIAD, IECHYD, LLESIANT A GWYDNWCH PLANT A PHOBL IFANC**

## Trosolwg o'r Uned

Ar y cyfan, roedd perfformiad yr ymgeiswyr ar draws y ddwy dasg yn yr uned hon yn hynod lwyddiannus, gyda llawer yn cael y marciau uchaf. At ei gilydd, roedd cyflwyniad cyffredinol y ddwy dasg yn gryf, gan adlewyrchu sgiliau ymchwilio cadarn. Roedd gwelliant amlwg o ran cymhwyso, cyfeirnodi, a gosodiad y sector, ac mae canolfannau'n haeddu cydnabyddiaeth am y datblygiadau arwyddocaol hyn eleni.

Ar gyfer Tasg 1, sy'n gofyn am fformat cyflwyno, cadwodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr at y strwythur cywir a bodloni'r meini prawf yn effeithiol. Fodd bynnag, problem gyson oedd cyflwyno'r gwaith ar fformat adroddiad ar gyfer y ddwy dasg. Er i ystod amrywiol o leoliadau gael eu dewis ar gyfer Tasg 1, atgoffir ymgeiswyr nad yw ysgolion uwchradd yn cael eu hargymell ar gyfer y dasg hon, yn enwedig ysgol yr ymgeiswyr eu hunain oni bai bod y ffocws ar uned ADY benodol yn yr ysgol. At hynny, yn hytrach na dewis lleoliad gofal plant cyffredinol fel meithrinfa neu ysgol gynradd, cynghorir yn gryf bod lleoliad penodol, wedi'i ddiffinio, yn cael ei ddewis er mwyn hwyluso cymhwyso gwybodaeth yn fwy effeithiol. Defnyddiodd rhai ymgeiswyr astudiaethau achos drwy gydol y dasg hon ac er bod hyn yn gallu bod yn ddefnyddiol ar gyfer gwaith cymhwyso'r ymgeiswyr yn adrannau b(i) a d(ii), mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn cymhwyso pob adran arall i'r lleoliad penodol, yn hytrach nag unigolyn gan mai hyn ddylai fod yn brif ganolbwynt y dasg. Canlyniad gorddefnyddio astudiaethau achos yn y dasg hon oedd bod rhai ymgeiswyr yn methu bodloni'r amcanion asesu'n llawn, yn enwedig yn Adran A. Ar brydiau, roedd hi'n aneglur pa leoliad roedd yr ymgeisydd wedi'i ddewis.

Yn Nhasg 2, roedd y cyflwyniadau wedi'u strwythuro'n dda ac wedi'u cyfeirnodi'n fanwl ar y cyfan. Dangosodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr ddealltwriaeth ardderchog o'r polisïau cymdeithasol sy'n effeithio ar y sector gofal plant yng Nghymru. Yn arbennig, cwblhawyd y drafodaeth ynghylch y fenter benodol, 'Adeiladu dyfodol mwy disglair' i safon eithriadol o uchel, fel bod ymgeiswyr yn gallu cael marciau uchel yn yr adran hon.

## Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

## Tasg 1

Aeth yr ymgeiswyr mwyaf llwyddiannus yn Nhasg 1 ati'n effeithiol i gymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth at leoliad gofal plant penodol gan eu galluogi i archwilio'n fwy trylwyr sut mae anghenion yn cael eu bodloni gan ddefnyddio enghreifftiau penodol i lywio eu gwaith.

Yn **Nhasg 1(a)**, esboniodd rhai ymgeiswyr anghenion datblygiad plant yn fanwl ar draws pob cam datblygiad allweddol. Does dim angen gwneud hyn, gan mai anghenion plant a phobl ifanc yn y cam datblygiad penodol sy'n berthnasol i'r lleoliad a ddewiswyd a ddylai fod yn brif ffocws Tasg 1. Er enghraifft, os ysgol gynradd yw'r lleoliad penodol, dylai'r ymgeiswyr esbonio anghenion corfforol, deallusol, iaith, cymdeithasol ac emosiynol plant rhwng pedair ac un ar ddeg oed yn unig.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Yn **Nhasg 1(a)**, rhoddodd ymgeiswyr llai llwyddiannus esboniad byr o ran y canlyniadau posibl os nad yw anghenion plant yn cael eu bodloni, weithiau gan roi un frawddeg yn unig yn gysylltiedig ag un maes datblygiad. Nid yw hyn yn ddigon i gyrraedd y band marciau uchaf.

Yn **Nhasg 1(b)**, ymdriniodd mwyafrif yr ymgeiswyr yn effeithiol â'r ffordd y mae trawsnewidiadau, newidiadau mewn bywyd a phrofiadau bywyd yn effeithio ar ddatblygiad a gwydnwch plant, er i rai ymgeiswyr ddisgrifio trawsnewidiadau a oedd yn ymwneud ag oedolaeth nad ydynt yn berthnasol i'r dasg hon. Roedd yr ymgeiswyr mwyaf llwyddiannus yn gallu cymhwyso'r gofal a'r cymorth a roddir i blant yn ystod trawsnewidiadau yn effeithiol at y lleoliad o'u dewis, gan ddefnyddio enghreifftiau priodol i gefnogi hyn.

Yn **Nhasg 1(c)**, esboniodd mwyafrif yr ymgeiswyr bwrpas asesiadau a chymhwyso'r mathau o asesiadau a ddewiswyd at eu lleoliad penodol. Ar y llaw arall, esboniodd ymgeiswyr llai llwyddiannus asesiadau a oedd yn amherthnasol i'r lleoliadau o'u dewis a thrafod asesiadau'n gyffredinol. I gyrraedd y band marciau uchaf, roedd yn angenrheidiol i ymgeiswyr gyfeirio at sut mae eu lleoliad penodol yn defnyddio asesiadau i ddarparu cymorth amserol, priodol a pharhaus.

Atebwyd **Tasg 1(ch)** yn dda gan y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr a ddisgrifiodd ystod lawn o rwystrau a allai fod yn berthnasol i blant allu cael mynediad i'w lleoliad dewisol.

Yn **Nhasg 1(d)**, rhoddodd yr ymgeiswyr mwyaf llwyddiannus ddisgrifiad cywir pam gall plant penodol sy'n cael mynediad i'r lleoliad penodol fod ag amrywiaeth o anghenion gofal cymhleth, gan gynnwys anghenion synhwyraidd ac Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Yn bennaf, nododd yr ymgeiswyr llai llwyddiannus amrywiaeth o gyflyrau a allai arwain at anghenion cymhleth, ond heb ddisgrifio'r anghenion hynny neu eu heffaith ar y plentyn.

Yn **Nhasg 1 (dii),** rhoddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr rywfaint o esboniad o sut gallai'r lleoliad o'u dewis fodloni anghenion gofal cymhleth, ond gallai'r rheini a oedd fwyaf llwyddiannus esbonio sut bodlonwyd amrywiaeth o anghenion trwy ofal plentyn-ganolog i gyflawni amrywiaeth o ganlyniadau personol. Rhoddodd ymgeiswyr llai llwyddiannus atebion cyffredinol nad oedden nhw wedi'u cymhwyso'n dda at y lleoliad nac at y cymorth trwy ofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac sy'n blentyn-ganolog. Defnyddiodd rhai ymgeiswyr enghreifftiau penodol, a oedd yn eu galluogi i gymhwyso eu hymatebion yn well at y lleoliad ac at anghenion y plant. Mae'n bosibl defnyddio astudiaethau achos yn yr adran hon ond does dim angen, ond bod yr ymgeisydd yn esbonio'n llawn y ffyrdd y mae'r lleoliad yn bodloni gofynion plant ag anghenion cymhleth penodol drwy ofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac sy'n blentyn-ganolog.

### Tasg 2

Dangosodd yr ymgeiswyr mwyaf llwyddiannus yn Nhasg 2 eu bod wedi gwneud ymchwil drylwyr ar sut mae polisi cymdeithasol yn effeithio ar ddarpariaeth gofal plant ac roedden nhw'n gallu archwilio goblygiadau'r newidiadau yn y ddarpariaeth hon yn drylwyr.

Yn **Nhasg 2(a)**, roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu archwilio materion cysylltiedig â pholisi cymdeithasol a dangoson nhw wybodaeth a dealltwriaeth o sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gweithredu fel deddfwriaeth gyffredinol a sut mae 'Cymru Iachach' yn llywio newid. Edrychodd yr ymgeiswyr mwyaf llwyddiannus ar bolisi'n wrthrychol, gan ddod i farn wedi'i rhesymu a chanlyniadau dilys i fodloni gofynion Amcan Asesu (AA3).

© WJEC CBAC Ltd.2026

Yn **Nhasg 2(b)**, roedd ymgeiswyr yn fwyaf llwyddiannus pan oedden nhw'n gallu esbonio newidiadau mewn darpariaeth gofal plant a sut byddai'r rhain yn berthnasol i ymarferwyr yn y sector. Cafwyd nifer o ymatebion rhagorol yn yr adran hon a oedd yn haeddu'r marciau uchel a roddwyd gan ganolfannau, lle rhoddodd ymgeiswyr esboniadau manwl a thrylwyr o ran y goblygiadau i ymarferwyr ac i'r sector.

Yn **Nhasg 2(c)**, dangosodd ymgeiswyr eu dealltwriaeth o bwysigrwydd diogelu, gyda llawer yn dangos gafael hyderus ar pam mae diogelu yn angenrheidiol. Yn gyffredinol roedd yr ymatebion yn yr adran hon yn fanwl ac yn drylwyr.

Yn **Nhasg 2(cii),** gwerthusodd yr ymgeiswyr a oedd yn fwyaf llwyddiannus gyfrifoldebau ac atebolrwydd unigolion a sefydliadau ar wahân a rhoi barn resymegol ar sut mae'r cyfrifoldebau a'r atebolrwydd yn dylanwadu ar ymarfer yn y sector. Rhoddodd ymgeiswyr llai llwyddiannus ymatebion disgrifiadol yn bennaf ac felly roedden nhw'n fwy llwyddiannus yn elfen AA1 yr adran hon nag yn yr elfen AA3.

Yn **Nhasg 2(ciii)**, roedd hi'n nodedig i fwyafrif yr ymgeiswyr drafod y fenter gywir, sef Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair, ac roedden nhw'n gallu dod i farn ynghylch ei rôl a'i hamcanion a sut mae hyn yn gwella gofal.

Ymdriniodd yr ymgeiswyr â **Thasg 2(ch)** yn effeithiol a'r rheini a oedd â thystiolaeth o ymchwil drylwyr oedd y mwyaf llwyddiannus gan ennill marciau uchel.

At ei gilydd, gwelwyd gwelliant nodedig ym mhob adran o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol o ran sut aeth ymgeiswyr ati i ymdrin â'r tasgau gofynnol.

© WJEC CBAC Ltd.2026

## IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT

## TAG

## Haf 2026

## UNED 5 SAFBWYNTIAU DAMCANIAETHOL AR YMDDYGIAD OEDOLION

### Trosolwg o'r Uned

Roedd yn braf gweld bod y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi rhoi cynnig ar bob cwestiwn, gyda'r rhan fwyaf yn ennill marciau am eu hymatebion oherwydd eu bod yn gallu dangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddamcaniaeth seicolegol. Mae'r ymatebion yn dangos i'r ymgeiswyr wneud defnydd effeithiol o'r astudiaeth achos a ryddhawyd ymlaen llaw i baratoi at eu hymatebion yn Adran A y papur. Nid oedd hi'n ymddangos bod rheoli amser yn effeithio ar berfformiad mwyafrif yr ymgeiswyr; byddai hyn yn awgrymu bod ymgeiswyr wedi gwneud defnydd o'r adnodd 'Arweiniad i'r Arholiad' er mwyn paratoi.

Mynegwyd ymatebion yr ymgeiswyr yn ddigonol gan ddefnyddio sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig eithaf cywir ar gyfer TAG. Defnyddiwyd terminoleg benodol i'r pwnc yn effeithiol ar y cyfan ar draws y papur. Prin iawn y gwelwyd llawysgrifen annarllenadwy.

Dylai ymgeiswyr gofio canolbwyntio ar air gorchymyn y cwestiynau o ddechrau eu hymatebion. Os na fyddan nhw wedi ymdrin â'r gair gorchymyn yn ddigon trylwyr, dim ond y marciau isaf y gellir eu rhoi. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion yn mynd i'r afael â gofynion y cwestiynau, ond ni wnaeth rhai ymgeiswyr gynnig yr ymgysylltiad angenrheidiol i gyrraedd y bandiau marciau uwch.

Roedd rhai ymatebion yn awgrymu bod ymgeiswyr yn ei chael hi'n anodd cysylltu dulliau â'r ddamcaniaeth seicolegol berthnasol. Roedd yr ymatebion yn aml yn gyffredinol, yn enwedig wrth gyfeirio at Cw3c, Cw5.

Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn paratoi drwy fod â gafael hyderus ar y damcaniaethau seicolegol a'r dulliau gwahanol sy'n codi o'r damcaniaethau hyn. Gellir hwyluso hyn drwy fanteisio i'r eithaf ar y deunydd adnoddau a ddarperir i gefnogi uned 5.

### Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

**Adran A** – Mae'r adran hon yn ymwneud â'r wybodaeth a ddarparwyd yn yr astudiaeth achos a ryddhawyd ymlaen llaw.

**Cw.1** (a) Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu rhoi disgrifiad da gan ddangos gwybodaeth gyffredinol gadarn o'r ffactorau cymdeithasol ac emosiynol a all fod yn effeithio ar Mared.

(b) Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu rhoi amlinelliadau da o dri ffactor a all fod wedi cael effaith ar wydnwch Mared.

(c) Dangosodd yr ymatebion fod y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu rhoi esboniad da a oedd yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o sut gall y Dull Adferol ddatrys y gwahaniaethau rhwng Mared a Natalie.

© WJEC CBAC Ltd.2026

**Cw.2** (a) Roedd yr ymatebion yn dangos bod y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu rhoi dadansoddiad da gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o ffactorau cymdeithasegol a seicolegol a all fod wedi effeithio ar ymddygiad Natalie. Roedd yr ymgeiswyr a gyrhaeddodd y bandiau marciau uwch yn gallu dadansoddi ffactorau seicolegol a chymdeithasol, gan roi manylion am yr agweddau negyddol a chadarnhaol hefyd yn aml.

(b) (i) Roedd mwyafrif yr ymatebion yn cynnig tystiolaeth o wybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o Ddamcaniaeth Deallusrwydd Emosiynol Goleman gyda gafael gadarn ar y cyfan o'r nodweddion allweddol.

(ii) Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu cynnig trafodaeth dda am fanteision datblygu deallusrwydd emosiynol i Natalie a'i thîm.

**Adran B**

**Cw.3** (a) Roedd yr ymatebion yn dangos bod y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu rhoi disgrifiad da o beth yw ystyr y term 'y meddwl anymwybodol' fel y'i defnyddir mewn damcaniaeth seicodynamig.

(b) Rhoddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr esboniad da gan ddangos gafael gyffredinol gadarn ar sut gall profiadau plentyndod cynnar ddylanwadu ar ymddygiad mewn oedolaeth. Cyfeiriodd yr ymgeiswyr a gyrhaeddodd y band marciau uwch at amrywiaeth o ddamcaniaethwyr sydd wedi cyfrannu at ddamcaniaeth seicodynamig a defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol yn eu hymatebion.

(c) Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr yn gallu rhoi ymateb sylfaenol gan ddangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o seicdreiddio a rhywfaint o asesiad o gryfderau a/neu gyfyngiadau o ran sut gall seicdreiddio helpu Eli i oresgyn ei orbryder am gael llawdriniaeth yn yr ysbyty. Er mwyn cyrraedd y bandiau marciau uwch, mae angen i'r ymatebion ystyried y cryfderau a'r cyfyngiadau hefyd.

**Cw.4** (a) Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu rhoi disgrifiadau da o ddull Cefnogaeth Weithredol gyda gafael gyffredinol gadarn ar y nodweddion allweddol.

(b) Dangosodd yr ymatebion bod y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu rhoi esboniad da gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o wydnwch a gafael gadarn ar y cyfan o'r budd i wydnwch Owen o fynychu'r caffi dementia.

(c) Dangosodd yr ymatebion bod y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu rhoi trafodaeth sylfaenol a bod ganddyn nhw rywfaint o wybodaeth o egwyddorion gofal person-ganolog a rhywfaint o afael ar sut mae staff a gwirfoddolwyr yn cymhwyso rhai o egwyddorion gofal person-ganolog yn y caffi dementia. Rhoddodd yr ymgeiswyr a gyrhaeddodd y bandiau marciau uwch drafodaethau da gan gysylltu egwyddorion gofal person-ganolog ag enghreifftiau i egluro eu hymatebion.

© WJEC CBAC Ltd.2026

**Cw.5** Roedd y cwestiwn hwn yn cyfuno dau amcan asesu (AA1 ac AA3) ac yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ddisgrifio a gwerthuso. Roedd sillafu, atalnodi, gramadeg a'r defnydd o derminoleg benodol i'r pwnc yn cael eu hasesu yn yr ymatebion hefyd.

**AA1**
Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu rhoi disgrifiad sylfaenol gan ddangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o therapi addasu ymddygiad a rhywfaint o afael ar y nodweddion allweddol. Roedd hi'n braf gweld bod ymgeiswyr a oedd yn cyflawni'n uwch yn gallu rhoi disgrifiadau manylach o'r therapi addasu ymddygiad a oedd yn ymwneud â'r therapi seicolegol sylfaenol sydd wedi cyfrannu at y dull hwn.

**AA3**
Roedd mwyafrif yr ymatebion wedi'u mynegi'n ddigonol ac yn dangos ymgysylltu uniongyrchol â therapi addasu ymddygiad a gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o gryfderau a/neu gyfyngiadau o ran sut gall therapi addasu ymddygiad gefnogi unigolyn sy'n byw gyda chyflwr iechyd meddwl fel OCD. Roedd yr ymgeiswyr hynny a gyrhaeddodd fand marciau 4 yn dangos sgiliau gwerthuso rhagorol a gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o gryfderau a chyfyngiadau o ran sut gall therapi addasu ymddygiad gefnogi unigolyn sy'n byw gyda chyflwr iechyd meddwl fel OCD.

At ei gilydd, defnyddiodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr sillafu, atalnodi a gramadeg gymharol gywir. Strwythurwyd yr ysgrifennu'n dda ar y cyfan a defnyddiwyd terminoleg benodol i'r pwnc yn briodol.

**Crynodeb o'r pwyntiau allweddol**

- Dylai ymgeiswyr gofio canolbwyntio ar eiriau gorchymyn y cwestiynau o ddechrau eu hymatebion. Os na fyddan nhw wedi ymdrin â'r gair gorchymyn yn ddigon trylwyr, dim ond y marciau isaf y gellir eu rhoi.

- Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn paratoi nid yn unig drwy fod â gafael hyderus ar y dulliau a ddefnyddir i gefnogi unigolion ond hefyd ar sut mae egwyddorion gofal person-ganolog yn sail i'r gwahanol ddulliau a ddefnyddir i gefnogi grwpiau penodol o unigolion. Gellir hwyluso hyn trwy wneud defnydd o'r holl ddeunyddiau adnoddau a ddarperir i gefnogi Uned 5

- Mae gofyn cael gwybodaeth a dealltwriaeth fwy trylwyr o ddamcaniaethau seicolegol allweddol a sut maen nhw'n ymwneud â dulliau cysylltiedig er mwyn i ymgeiswyr gyrraedd y bandiau marciau uwch.

- Argymhellir bod yr ymgeiswyr yn defnyddio'r adnodd 'Arweiniad i'r Arholiad' i'w paratoi ar gyfer gofynion yr arholiad hwn.

© WJEC CBAC Ltd.2026

**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT**

**TAG**

**Haf 2026**

**UNED 6: CEFNOGI OEDOLION I GYNNAL IECHYD, LLESIANT A GWYDNWCH**

**Trosolwg o'r Uned**

Cafodd yr holl waith ei lwytho i fyny erbyn y dyddiad cau, sef 15 Mai. Roedd mân wallau clerigol wrth adio marciau. Dylai canolfannau wirio bod y marciau a roddwyd yn rhoi cyfanswm cywir ar y taflenni marciau cyn eu cyflwyno ar y porth.

Cafodd mwyafrif y gwaith ei lofnodi'n gywir gan yr ymgeiswyr a'r aseswyr, a gwelwyd tystiolaeth o arfer da wrth i rai canolfannau gymedroli gwaith ymgeiswyr yn fewnol.

**Tasgau**

*Mae'n hanfodol dewis lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol priodol ar gyfer y dasg hon er mwyn i ymgeiswyr allu dangos gwybodaeth a dealltwriaeth ym mhob rhan o'r dasg.* Gall dewis gwael neu amherthnasol atal ymgeiswyr rhag gallu cyrraedd y bandiau marciau uwch oherwydd diffyg enghreifftiau perthnasol y gellir eu cymhwyso at bob adran o'r dasg. Ysgrifennodd llawer o'r ymgeiswyr adran gychwynnol ar eu lleoliad cyn dechrau. Eto, yn debyg i'r llynedd, ysgrifennodd ymgeiswyr astudiaethau achos o unigolion i gefnogi'r aseiniad. Nid yw hyn yn fuddiol, gan y gall wneud i'r ymgeiswyr ganolbwyntio ar anghenion yr unigolion yn hytrach na'r math o leoliad.

**Tasg 1**
Cwblhawyd Tasg 1 mewn fformat priodol i'w chyflwyno, sef blog neu ffeithlun. Lluniodd mwyafrif yr ymgeiswyr gyflwyniad. Roedd rhai wedi cynnwys cyflwyniad PowerPoint hefyd. Dylid annog ymgeiswyr i gynnwys cymaint o wybodaeth â phosibl yn y cyflwyniad. Dylai ymgeiswyr ddilyn strwythur yr asesiad (Adran A, B, C ac ati) a dylid defnyddio'r adrannau hyn fel teitlau. Byddai hyn yn helpu i gynhyrchu gwaith cydlynol. Roedd tystiolaeth o ymchwil a gynhaliwyd cyn dechrau'r asesiad di-arholiad wedi'i chofnodi'n dda ac wedi'i chyfeirnodi'n dda ar gyfer y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr.

**A**
Mae'r adran hon yn cyflwyno'r cefndir ar gyfer y dasg hon yn dda ac yn annog ymgeiswyr i ddangos perthnasedd y lleoliad a ddewiswyd ganddynt. Ar y cyfan, roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi deall gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a'i ran yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn dda. Roedd yr ymgeiswyr yn dangos gafael eglur ar amrywiaeth o anghenion yn dilyn PIES (Corfforol, Deallusol, Emosiynol, Cymdeithasol) a chanlyniadau anghenion heb eu bodloni. Mae angen i ganolfannau sicrhau eu bod nhw'n dyfarnu marciau yn ôl y cynllun marcio yn unig o ran anghenion heb eu bodloni ac nad yw hi'n bosibl dyfarnu yn y band marciau uchaf os nad oes tystiolaeth o esboniad o anghenion heb eu bodloni. Y marciau wedi'u cymedroli oedd yn tueddu i amrywio fwyaf yn yr adran hon a hynny oherwydd bod canolfannau'n dyfarnu ychydig yn rhy hael.

**B (i a ii)**
Roedd canolfannau wedi asesu'r adran hon yn gywir, gydag amrywiaeth o fathau o drawsnewidiadau, profiadau bywyd a newidiadau bywyd yn cael eu trafod.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Roedd y canolfannau hynny a ddangosodd leoliadau priodol yn trafod amrywiaeth o'r rhain yn effeithiol. Esboniwyd effaith y newidiadau hyn yn effeithiol hefyd gyda'r rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn cyrraedd marciau yn y bandiau uwch. Ysgrifennodd rhai ymgeiswyr yn gyffredinol am drawsnewidiadau, newidiadau mewn bywyd a phrofiadau bywyd ac ni wnaethon nhw wahaniaethu'n eglur rhyngddyn nhw, er bod y rhan fwyaf ohonyn nhw wedi gallu nodi ystod berthnasol.

**C**

Yn gyffredinol, roedd ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth dda o asesu ac roedd yn galonogol gweld cyfeiriadau at y pum elfen asesu a chyfrifoldebau'r awdurdod lleol yng ngwaith mwy o'r ymgeiswyr eleni. Byddai cymhwyso hynny at y lleoliad, gan gynnwys ystyried cynlluniau gofal ac ymyriadau amserol, yn galluogi rhai ymgeiswyr i gyrraedd marciau yn y band uwch.

**CH**

Nododd ymgeiswyr rwystrau yn dda ac ysgrifennodd sawl un mewn modd cynhwysfawr am amrywiaeth o'r rhain mewn perthynas â'r unigolyn yn y lleoliad a ddewiswyd ganddynt, gan gynnwys ffyrdd realistig o oresgyn heriau.

**D (i a ii)**

Cafodd yr adran hon ei rhannu'n ddwy ran gan lawer o'r ymgeiswyr, sy'n arfer da. Mae angen mwy o ffocws ar yr adran hon o'r dasg, gan gynnwys mwy o ddyfnder wrth ystyried sut gallai'r lleoliad ymateb i anghenion gofal cymhleth er mwyn darparu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i oedolion i gyflawni canlyniadau personol. Dylid annog ymgeiswyr i gyfeirio at adran (a) i'w hatgoffa o nodweddion gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer un unigolyn yn y lleoliad a ddewiswyd ganddynt.

**Tasg 2**

Cyflwynwyd y tasgau yn y fformat cywir. Fodd bynnag, o ran trefn, nid oedd rhai canolfannau wedi annog ymgeiswyr i ddefnyddio penawdau i gynorthwyo'r asesu.
Dylai ymgeiswyr ddilyn strwythur yr asesiad (Adran A, B, C ac ati) a dylid defnyddio'r adrannau hyn fel teitlau. Byddai hyn yn helpu i gynhyrchu gwaith cydlynol. Roedd tystiolaeth o ymchwil a gynhaliwyd cyn dechrau'r asesiad di-arholiad wedi'i chofnodi'n dda ac wedi'i chyfeirnodi'n dda ar gyfer y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr.

**A**

Ysgrifennodd llawer o'r ymgeiswyr adroddiadau trylwyr am y materion polisi cymdeithasol sy'n effeithio ar ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru ac mae *Cymru Iachach* wedi ymddangos yng ngwaith pob ymgeisydd gydag ysgrifennu meistrolgar yn rhannol gan rai canolfannau. Fodd bynnag, mae angen i ganolfannau annog ymgeiswyr i fod yn fwy dadansoddol yn eu gwaith ysgrifennu er mwyn cyrraedd y banciau marciau uwch. 'Archwiliwch' yw'r gair gorchymyn ar gyfer y dasg hon, sy'n gofyn i ymgeiswyr ddadansoddi a rhoi ymatebion trylwyr a manwl ar gyfer band marciau uwch tri.

**B**

Dylai'r adran hon gynnig esboniad clir o'r newidiadau o ran y ddarpariaeth a'r effaith ar rolau ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi gwella'n fawr yn yr adran hon ac roedden nhw'n gallu trafod amrywiaeth o rolau swyddi yn hyderus a sut effeithiwyd ar y rhain.

**C (i, ii, iii)**

Yn gyffredinol, dangosodd yr ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd diogelu ar gyfer adran C(i) ac roedden nhw'n gallu dangos gwybodaeth am yr unigolion a'r sefydliadau hynny â chyfrifoldebau o ran diogelu oedolion sy'n wynebu risg.

© WJEC CBAC Ltd.2026

Dylai canolfannau dynnu sylw ymgeiswyr at yr amcan asesu dadansoddi er mwyn dadansoddi sut mae'r cyfrifoldebau a'r atebolrwydd dros ddiogelu yn cael effaith ar yr ymarferwyr hynny sy'n rhoi gofal i oedolion sy'n wynebu risg. Nid oedd rhai ymgeiswyr wedi cynnwys unrhyw ddeunydd gwerthusol yn yr adran hon o'r dasg a rhoddwyd marciau uchel iddynt unwaith yn rhagor. Cyfeiriodd bron pob ymgeisydd at y ddeddfwriaeth berthnasol a gwelwyd amrywiaeth o ffyrdd y mae'n cysylltu â diogelu.Byddai tystiolaeth o farn resymegol yn gwella gwaith ymgeiswyr ar y bandiau marciau uwch.

**CH**
Mae Adran CH yn gofyn i ymgeiswyr asesu newidiadau mewn cymdeithas a sut maen nhw'n effeithio ar y sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Nododd llawer o'r ymgeiswyr ffactorau perthnasol fel tlodi bwyd, diffyg adnoddau a phoblogaeth sy'n heneiddio ond ni wnaethon nhw asesu'r effaith ar iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd rhai ymatebion yn ddisgrifiadol ar y cyfan, er bod rhai ymgeiswyr ar ben uchaf y bandiau marciau wedi ymchwilio i ffeithiau ac ystadegau gan wneud ymdrech dda i gysylltu'r wybodaeth hon â'r effaith ar y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Lle roedd ymgeiswyr wedi ennill marciau bandiau uwch, roedden nhw'n gwneud cyfeiriadau cyson at ddarllen ehangach ar gyfer yr adran hon. Y marciau wedi'u cymedroli oedd yn tueddu i amrywio fwyaf yn yr adran hon a hynny oherwydd bod canolfannau'n dyfarnu ychydig yn rhy hael.

**Argymhellion**

Rhaid i ganolfannau sicrhau bod ymgeiswyr yn llunio cyflwyniad, wedi'i osod mewn lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion penodol (yng Nghymru) o ddewis yr ymgeisydd.

Gall lleoliadau gynnwys:
- ysbyty cyffredinol
- ysbyty arbenigol
- ysbytai ardal – gwella a/neu adsefydlu
- cartref nyrsio
- gofal preswyl
- canolfannau dydd
- cartref yr oedolyn ei hun

Gellir dod o hyd i'r rhestr hon yn y canllawiau addysgu ar:
https://www.dysguiechydagofal.cymru/cymwysterau/uguwch-iechyd-a-gofal-cymdeithasol-a-gofal-plant/?tab=2

Fel arfer da, dylid annog canolfannau i anodi gwaith ymgeiswyr er mwyn nodi lle mae'r amcanion asesu wedi cael eu cyflawni.Dylid annog canolfannau i gymedroli sampl o waith yn fewnol a nodi'r rhain ar daflenni datganiad yr ymgeiswyr.

Rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod yr adroddiad wedi'i gwblhau yn eu geiriau eu hunain, a lle mae ymgeiswyr wedi defnyddio ymchwil ac adnoddau, mae'n rhaid cyfeirio atynt. Roedd tystiolaeth o ymchwil a gynhaliwyd cyn dechrau'r asesiad di-arholiad wedi'i chofnodi'n dda ac wedi'i chyfeirnodi ar ôl pob adran.

Rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod gwaith wedi'i gyfeirnodi fel y nodir ar dudalen 77 y fanyleb.

Anogir y defnydd o benawdau (Adran A, B, C ac ati) i gefnogi ymgeiswyr wrth gyflwyno'u gwaith.

© WJEC CBAC Ltd.2026

## Eich cefnogi chi

### Manylion cyswllt a chysylltau defnyddiol

Mae ein tîm pwnc cyfeillgar wrth law i'ch cefnogi rhwng 8.30 a.m. a 5.00 p.m. o ddydd Llun i ddydd Gwener.
Ffôn: 029 2240 4264
E-bost: HSCandCC@wjec.co.uk
Tudalen y cymhwyster ar y we: https://www.dysguiechydagofal.cymru/cymwysterau/uguwch-iechyd-a-gofal-cymdeithasol-a-gofal-plant/

Gweler manylion cyswllt defnyddiol eraill yma: Manylion Cyswllt Defnyddiol | CBAC

### Hyfforddiant DPP / Dysgu Proffesiynol

Manteisiwch ar ein cyrsiau DPP/DP ar-lein rhad ac am ddim poblogaidd i gael adborth ar arholiadau ac i ofyn cwestiynau i'n tîm pwnc, a dewch i un o'n digwyddiadau wyneb yn wyneb, sy'n canolbwyntio ar wella addysgu a dysgu, darparu syniadau ar gyfer yr ystafell ddosbarth a datblygu dealltwriaeth o farcio ac asesu.

Mae manylion ynghylch ein holl gyrsiau i'w cael yma: https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/

### Cymwysterau CBAC

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, mae CBAC yn cefnogi ei gymuned addysg drwy ddarparu cymwysterau dwyieithog ac asesiadau dibynadwy a chefnogaeth arbenigol i ysgolion a cholegau ar draws y wlad. Mae hyn yn caniatáu i'n dysgwyr gyrraedd eu potensial yn llawn.

Gyda thros 70 mlynedd o brofiad, rydym hefyd ymhlith y prif ddarparwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

© WJEC CBAC Ltd.2026

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk

© WJEC CBAC Ltd.2026